

Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

Y Cynghorydd JP, Jon-Paul Blundell

Ward: Cefn Glas

Plaid: Y Blaid Lafur / Grŵp Llafur

Mae'r Adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mai 2023. Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac i ddim diben arall. Eiddo'r Cynghorydd yw'r sylwadau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Swydd a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Cefn Glas ar y 5^{ed} o Fai 2022. Penodwyd fi hefyd yn Aelod o'r Cabinet dros Addysg ym mis Mai 2022.

Roedd fy mhortffolio yn y Cabinet yn cynnwys cyfrifoldeb dros (ymhlith pethau eraill)

- Addysg

Rwyf hefyd wedi gwasanaethu ar y byrddau a'r pwyllgorau canlynol (ymhlith eraill)

- Bwrdd Rheoli Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyd-bwyllgor Gwasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De
- Grŵp Llywio Cerddoriaeth Ieuenctid y Pedair Sir
- Cydbwyllgor Archifau Morgannwg
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)
- Prifysgol Abertawe, Llys y Llywodraethwyr
- Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet
- Pwyllgor y Cabinet dros Gydraddoldeb
- Pwyllgor Rheoli Uned Gyfeirio Disgyblion
- Fforwm Cyllideb Ysgolion
- Grŵp Llywio Iechyd a Diogelwch

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 98 o ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich cynorthwyo i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi bod o gymorth i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward.

Gweithgaredd yn yr Etholaeth (200 o eiriau ar y mwyaf)

Gan fy mod yn byw yn yr ardal yr wyf yn ei chynrychioli, byddaf yn aml yn mynd am dro o gwmpas y Ward gan sylwi ar unrhyw faterion ac yn adrodd amdanynt wrth yr adran briodol er mwyn iddynt gael eu cywiro. Byddaf yn mynychu digwyddiadau lleol a byddaf yn fuan yn cynnal cymorthfeydd cyngor i drigolion gael dod i siarad â mi yn uniongyrchol yn hytrach na thros y ffôn neu e-bost.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig (200 o eiriau ar y mwyaf)

Fel aelod o Gyngor Cymuned Trelales byddaf yn cynorthwyo i gefnogi digwyddiadau fel yr arddangosfa tân gwylt lleol, diwrnod hwyl Broadlands, y goleuadau Nadolig. Gyda chymorth y Cyngor Cymuned rydym hefyd yn dechrau rhoi cynlluniau at ei gilydd ar gyfer gardd goffa Covid-19 i goffâu'r rhai a gollwyd yn ystod y pandemig.

Gweithgareddau / Materion Eraill (100 o eiriau ar y mwyaf)

Rwyf yn llywodraethwr ar Ysgol Fabanod Cefn Glas ac Ysgol Gyfun Bryntirion ac fel y dywedwyd yn gynharach rwyf yn gwasanaethu ar Gyngor Cymuned Trelales.

Y Cyngorydd JP, Jon-Paul Blundell

Dyddiad: